Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithio gyda'n gilydd i ysgrifennu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## Pa mor dda wnaeth hyn weithio?



Fersiwn hawdd ei ddeall o: **'Y dull ar y cyd cynhyrchiol a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, Crynodeb Gweithredol'**

Mehefin 2017

978-1-78859-490-5

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:




Gwefan: http://gov.wales/statistics-and-research/co-productive-approach-taken-develop-statutory-framework-social-services-well-being-act-2014/?skip=1&lang=cy




Rhif ffôn: 0300 025 0536

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys


| | Tudalen |
| --- | --- |
| Am beth mae hyn yn sôn? | 4 |
| Gweithio gyda'n gilydd | 6 |
| Faint o ran gymeroch chi? | 8 |
| Pa mor dda roedd y cyfarfodydd wedi gweithio? | 11 |
| Rhesymau da dros weithio gyda'n gilydd i ysgrifennu deddf newydd | 14 |

# Am beth mae hyn yn sôn?


Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn esbonio'r Ddeddf.
Nid yw'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn gyfraith.

Rhaid i chi darllen y Ddeddf er mwyn gwybod beth mae'r gyfraith yn dweud.

Tudalen **1** o **83**

Yn 2014, daeth **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn ddeddf newydd. Fe ysgrifennon ni hon mewn ffordd wahanol i'r ffordd rydyn ni'n arfer ysgrifennu deddfau newydd.



Fe weithion ni gyda gwahanol grwpiau o bobl.

Y grwpiau hyn oedd:



- **Grŵp partneriaid y Gwasanaethau Cymdeithasol** – roedd hyn ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r mudiadau sy'n gweithio gyda nhw. Fel Byrddau Iechyd a mudiadau sy'n rhoi gofal a chefnogaeth i bobl.



- **Grŵp arweinwyr** – roedd hyn ar gyfer prif reolwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a mudiadau sy'n gweithio gyda nhw.



- **Grŵp dinasyddion** – roedd hyn ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal a chefnogaeth.



- **Grwpiau bach** – fe edrychon nhw ar rai syniadau yn fanwl i feddwl sut y gallen nhw weithio.



Roedd arnon ni eisiau gweld pa mor dda roedd y ffordd newydd hon o weithio gyda'n gilydd i ysgrifennu'r ddeddf yn gweithio. Ydyn ni'n gallu ei wneud yn well yn y dyfodol?



Fe wnaethon ni siarad gyda 20 o bobl i weld beth roedden nhw'n feddwl.

# Gweithio gyda'n gilydd

## Pethau da



- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ei bod hi'n syniad da iawn i gynnwys gwahanol bobl mewn ysgrifennu'r ddeddf hon.



- Dywedoch chi fod gennym ni gymysgedd da o bobl yn y grwpiau.

## Y pethau y gallwn ni eu gwneud yn well



- Roedd gan grŵp y dinasyddion rai pobl ifainc i ddechrau ond fe adawon nhw. Dywedoch chi bod arnon ni angen meddwl mwy ynghylch sut i gynnwys pobl ifainc.



- Dywedodd y grwpiau bach fod arnyn nhw angen mwy o bobl o faes iechyd. Roeddech chi eisiau inni ddal i weld os oedd digon o'r bobl gywir yn y grwpiau cywir.



- Dywedodd y grwpiau i gyd bod mwy o bobl angen cael eu cynnwys. Mae arnon ni angen mynd at gymunedau, grwpiau a staff i gael eu barn. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod go iawn:



☑ sut beth yw cael gofal a chefnogaeth



☑ sut beth yw hi go iawn i staff sy'n gwneud y gwaith



☑ bod pawb yn gwybod pa newidiadau fydd yn dod.

# Faint o ran gymeroch chi?

## Pethau da




Dywedodd rhai pobl eu bod wedi cymryd llawer o ran. Dywedodd pobl eraill bod mwy yn gallu cael ei wneud i'ch cynnwys chi'n iawn.



**Dywedodd arweinwyr a grwpiau bach:**

- y gwnaethon ni waith da o gynnwys pobl




- ei bod hi'n dda i gael pobl o'r llywodraeth yn bod yn onest ynglŷn â chyllidebau a beth sy'n bosibl



- eu bod bob amser wedi cael cyfle i ddweud beth roedden nhw'n feddwl



- bod pobl wedi gwrando a defnyddio y pethau roedden nhw wedi'u dweud. Roedden nhw'n hoffi cael clywed beth oedd yn ddefnyddiol



- bod cael **amrywioldeb** yn y grŵp yn bwysig er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd neb yn cael ei adael allan

> Mae **amrywioldeb** yn meddwl gwahanol bobl sydd â gwahanol ffyrdd o fyw a gwahanol ddiwylliant.




- bod y syniadau oedd ganddyn nhw wedi cael eu defnyddio ac wedi gwneud gwahaniaeth i'r ddeddf newydd.



Mae rhai pobl yn meddwl ei bod yn help bod rhywun yn dweud wrthyn nhw beth i siarad amdano.

**Dywedodd grŵp y dinasyddion:**



- ei bod hi'n bwysig cael cyfle i ddweud eich barn



- bod y grŵp yn parchu ei gilydd felly roeddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn dweud beth rydych chi'n feddwl



- bod rhai pobl yn teimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw a bod eu syniadau’n cael eu defnyddio. Ond roedd rhai pobl yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnyn nhw ac nad oedd eu syniadau’n cael eu defnyddio



- ei bod hi’n beth da bod gweinidogion yn dod i’r grŵp. Roedd pobl yn teimlo bod pobl yn gwrando mwy arnyn nhw wedyn




- nad oedd rhai pobl yn meddwl bod y pethau roedden nhw wedi’u dweud wedi gwneud gwahaniaeth i’r ddeddf newydd.

## Y pethau y gallwn ni eu gwneud yn well




- eich cynnwys o’r cychwyn cyntaf. Mae arnoch chi eisiau cymryd rhan yn yr hyn sydd angen siarad amdano ar gyfer deddf newydd



- mae arnon ni angen dweud wrthych chi sut y byddwn ni’n penderfynu defnyddio eich syniadau. A pham nad ydyn ni’n defnyddio rhai syniadau.

# Pa mor dda roedd y cyfarfodydd wedi gweithio?



Dywedodd rhai pobl yng ngrŵp yr arweinwyr ac yn y grwpiau bach bod gormod o'r cyfarfodydd wedi digwydd yng Nghaerdydd.



Daeth grŵp y dinasyddion o bob rhan o Gymru a chyfarfod mewn gwahanol fannau yng Nghymru. Roedden nhw'n hapus gyda hyn gan ei fod yn ei gwneud hi'n deg i bawb.



Dywedodd grŵp yr arweinwyr y gallen nhw newid y ffordd mae'r cyfarfod yn cael ei redeg yn yr un ffordd bob tro. Weithiau mae cael gwahanol bethau i'w gwneud yn helpu pobl i feddwl mewn gwahanol ffyrdd.



Dywedodd y grwpiau bach bod ar bawb yn y dyfodol angen ysgrifennu beth maen nhw'n ei feddwl. Bydd hyn yn meddwl bod pawb yn gwybod beth mae pobl eraill yn ei feddwl cyn y cyfarfodydd. Bydd yn meddwl bod mwy o amser i siarad am syniadau.



Chafodd pob grŵp bach mo'r un faint o amser i gyfarfod. Mae'n well i bob grŵp gael digon o amser.



Dydy pawb yng ngrŵp y dinasyddion ddim yn meddwl yr un peth am arweinwyr y grŵp. Dywedodd rhai eu bod nhw'n dda am gael popeth wedi'i wneud.




Roedd rhai eraill yn meddwl nad oedd yr arweinwyr yn deall y ddeddf newydd yn iawn. Roedd rhai yn dweud nad oedden nhw'n deall sut roedd bywyd iddyn nhw.



Dywedodd rhai pobl yng ngrŵp y dinasyddion bod y gefnogaeth yn dda, yn enwedig y cynorthwywyr personol. Efallai buasai'r rhai oedd heb gynorthwywr personol wedi hoffi cael un. Bydd angen gwirio hyn yn fwy aml.



Mae ar grŵp y dinasyddion eisiau siarad mwy mewn grwpiau bach. Roedd yn anodd codi eich llais yn y grŵp mawr.



Roedd yn dda cael popeth mewn Saesneg clir neu wybodaeth hawdd ei deall. Ond weithiau roedd ar bawb angen mwy o eglurhad.




Roedd ffilmiau yn ffordd dda o weld a deall storïau pobl.



Defnyddiodd rai pobl 'Skype' rhwng cyfarfodydd i siarad am y ddeddf newydd. Roedd hyn yn ddefnyddiol.

Mae **Skype** yn ffordd o ddefnyddio'r cyfrifiadur i siarad â rhywun arall sydd yn rhywle arall un ai trwy sain neu fideo.



Mae ar bob grŵp eisiau cyfarfod y grwpiau eraill yn fwy aml yn y dyfodol. Roedd yr un amser y gwnaethon nhw i gyd gyfarfod wedi eu helpu i ddeall syniadau ei gilydd yn well.

# Rhesymau da dros weithio gyda'n gilydd i ysgrifennu deddf newydd



Gyda gwahanol grwpiau'n cymryd rhan, mae deddf newydd yn fwy tebygol o gael ei derbyn.




Mae'r ddeddf yn well oherwydd bod barn gwahanol bobl yn rhan ohono.



Mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn deall y ddeddf newydd a sut mae'n gweithio. Gallan nhw ddweud wrth bobl eraill amdano fel bod pawb yn barod am yr hyn sydd arnyn nhw angen ei wneud.




Roedd mwy o barch i Lywodraeth Cymru am ofyn i bobl am eu syniadau.